CYPE(5)-20-20 - Papur i'w nodi 11

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Lynne Neagle AS
Y Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

30 Gorffennaf 2020

Annwyl Lynne,

Ysgrifennaf atoch yn dilyn fy mhresenoldeb yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 7 Gorffennaf ar gyfer y sesiwn dystiolaeth Covid-19.

Yn y cyfarfod, cytunais i â’m swyddogion i rannu'r canlynol gyda'r Pwyllgor:

- yr adolygiad o ddysgu cyfunol a wnaed gan y consortia addysg rhanbarthol a manylion y camau a gymerwyd o ganlyniad iddo;
- y papur a gyhoeddwyd ar y cyd ag Estyn a'r consortia addysg rhanbarthol yn rhoi rhagor o fanylion am y cyngor i ysgolion ar ddysgu cyfunol.

Cafodd y Canllawiau Dysgu Cyfunol (a gyhoeddwyd ym Mehefin 2020) a'r Modelau Dysgu Cyfunol (a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2020) eu cynhyrchu ar y cyd rhwng y consortia ac Estyn, fel rhan o un o ffrydiau gwaith prosiect Parhad Dysgu Llywodraeth Cymru. Ategwyd y canllawiau hyn gan adolygiad a gynhaliwyd gan y consortia rhanbarthol, sef 'Crynodeb Cenedlaethol o Ddysgu o Bell' - dogfen gan y consortia rhanbarthol yw hon ac felly nid yw ar gael i'r cyhoedd.

Pan luniwyd y canllawiau cychwynnol, roedd yr ysgolion yn gweithredu modelau dysgu o bell. Roedd y canllawiau’n seiliedig ar adolygiad o gyhoeddiadau rhyngwladol ar ddulliau dysgu cyfunol, a rhestrir nifer ohonynt yn y canllawiau. Cynlluniwyd y canllawiau i gefnogi'r broses o ddychwelyd i'r ysgol o 29 Mehefin, pan ddechreuodd ysgolion weithredu dysgu cyfunol. Roedd y modelau dysgu cyfunol yn rhoi mwy o fanylion ac enghreifftiau o sut y gallai'r canllawiau gael eu cymhwyso ar gyfer grwpiau oedran gwahanol. Cafodd hyn ei lywio'n rhannol gan y trafodaethau a gafodd arolygwyr a chynghorwyr herio gyda phenaethiaid am eu cynlluniau i ailagor ysgolion yn rhannol. Ond roedd yn seiliedig gan mwyaf ar dystiolaeth o'r hyn oedd wedi gweithio mewn mannau eraill, gan fod y gwaith hwn yn ei gamau profi cynnar yng Nghymru.


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education